

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BLWYDDYN Y CYNGOR 2019-20

**PWYLLGOR CRAFFU – PLANT A
PHOBL IFAINC**

16 Hydref 2019

**ADRODDIAD:
CYFARWYDDWR GWASANAETH
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

Agendwm

**DIWEDDARIAD AR WEITHREDU
STRATEGAETH MYNYCHU'R YSGOL AR
GYFER 2018 - 2021**

**Awdur: Daniel Williams, Pennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
Ffôn: 01443 744298**

**DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH MYNYCHU'R YSGOL AR GYFER 2018 - 2021
"COLLI YSGOL, COLLI ALLAN"**

1. DIBEN YR ADRODDIAD

Diben yr adroddiad yma yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar weithredu'r Strategaeth Mynychu'r Ysgol, 2018 - 2021, gan gynnwys y cynllun gweithredu i godi ymwybyddiaeth o bresenoldeb da mewn ysgolion a gwella'r cyfraddau presenoldeb cyfredol ar draws Rhondda Cynon Taf.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

- 2.1 Craffu ar yr wybodaeth o fewn yr adroddiad yma a chynnig sylwadau.
- 2.2 Ystyried a ydyn nhw am graffu'n fanylach ar unrhyw faterion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

3. CEFNDIR YR ADRODDIAD

- 3.1 Ers 2016, mae cyfraddau presenoldeb yn Rhondda Cynon Taf wedi dechrau dirywio. Gostyngodd presenoldeb ysgolion cynradd (gan gynnwys ysgolion arbennig) o 94.6% yn 2015/16 i 94.2% yn 2017/18. Gostyngodd presenoldeb ysgolion uwchradd (gan gynnwys ysgolion arbennig) o 93.9% i 92.9% dros yr un cyfnod. Roedd y cwymp yn dystiolaeth o'r angen am adolygiad o'r Strategaeth Mynychu'r Ysgol er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n cyfrannu at y cyfraddau presenoldeb is. Cafodd y Strategaeth Mynychu'r Ysgol ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc ym mis Medi 2018 gyda diweddariad blynyddol wedi'i drefnu er mwyn ei hadolygu a'i herio.
- 3.2 Roedd absenoldebau heb ganiatâd hefyd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod yma, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd lle'r oedd wedi codi o 1.8% i 2.3%. Arweiniodd hyn at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn derbyn rhagor o atgyfeiriadau gan ysgolion mewn ymgais i fynd i'r afael â'r absenoldebau:

- 3.3 Cafodd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ei ailstrwythuro ym mis Ebrill 2018 i gyfrif am y newidiadau mewn presenoldeb yn yr ysgolion ac anghenion newydd y defnyddiwr gwasanaeth.
- 3.4 Mae'r gwasanaeth newydd yn canolbwyntio'n fwy ar ddarparu pecyn cymorth pwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny (a'u teuluoedd) sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr ysgol, gyda disgwyliad clir y gall ysgolion reoli eu prosesau mewnol yn fwy effeithiol. Mae rhannu arferion da, cyfarfodydd cymorth a herio a gwiriadau cydymffurfio rheolaidd mewn perthynas â chofrestru, i gyd yn rhan o'r gefnogaeth sydd wedi'i chynnig i ysgolion i wella sut maen nhw'n rheoli presenoldeb.
- 3.5 Gobaith y strategaeth yma yw parhau i gryfhau'r ffocws ar ymyrraeth, cefnogi'r boblogaeth ysgol ehangach a chodi ymwybyddiaeth, un ai cyn rhoi'r cymorth neu yn ogystal â rhoi'r cymorth i'r disgyblion sydd wedi'u hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Mae cynllun gweithredu blynyddol yn nodi amcanion y strategaeth (Atodiad Un).

4. BLAENORIAETHAU A GWEITHREDIADAU ALLWEDDOL A GYMERWYD YN Y FLWYDDYN GYNTAF

- 4.1 Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar chwe blaenoriaeth allweddol, a ddylai, o'u cyflawni'n effeithiol, gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ysgol ar draws y Fwrdeistref Sirol:
- Gwellu ymwybyddiaeth disgyblion, rhieni, y cyhoedd ac ysgolion am y mater drwy ddatblygu dull gweithredu awdurdod cyfan tuag at hyrwyddo a gwella presenoldeb;
 - Adolygu, gwerthuso a datblygu ymhellach y defnydd o ddata, y broses o'i ddadansoddi a'r mecanweithiau adrodd er mwyn llywio gwella gwasanaethau ar lefel awdurdod lleol ac ysgol;
 - Datblygu system her a chymorth gadarn a chynaliadwy ymhellach ar gyfer gwella presenoldeb yn yr ysgol, gan gysylltu â blaenoriaethau allweddol eraill sy'n effeithio ar absenoldeb ac sy'n cael ei effeithio ganddo;
 - Datblygu mecanwaith effeithlon a hunangynhaliol ar gyfer rhannu arferion da a gwybodaeth yn brydlon y mae modd ei ddefnyddio'n annibynnol gan ysgolion ar unrhyw adeg;
 - Adolygu, gwerthuso ac ail-lansio mentrau ac ymyriadau allweddol er mwyn cefnogi presenoldeb da a mynd i'r afael ag absenoldebau;
 - Gwellu gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod yr amcan allweddol o wella presenoldeb mewn ysgolion wedi'i wreiddio ar draws asiantaethau mewnol ac allanol.

Blaenoriaeth 1: Gwellu ymwybyddiaeth disgyblion, rhieni, y cyhoedd ac ysgolion am y mater drwy ddatblygu dull gweithredu awdurdod cyfan tuag at hyrwyddo a gwella presenoldeb

- 4.2 "Colli Ysgol, Colli Allan" yw slogan canolog y strategaeth. Yn rhan o'r strategaeth yma, mae'r cyfnod cynradd yn cael ei frandio'n Super Fynychwr. Yn y cyfnod

uwchradd, mae presenoldeb yn cael ei gysylltu â chyrhaeddiad gyda'r slogan "Mynychu Heddiw, Cyflawni Yfory".

- 4.3 Gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yw'r prif lwyfannau i ledaenu negeseuon yr ymgyrch. Maen nhw'n cynnwys delweddau o'r negeseuon cyffredinol sy'n cael eu nodi yn 4.2, a hefyd yn canolbwyntio ar rai o'r 'esgusodion' mwyaf cyffredin am beidio â mynychu'r ysgol na fydd RhCT yn eu derbyn.
- 4.4 Gall ysgolion gysylltu eu gwefannau a'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain â negeseuon cyfryngau cymdeithasol / tudalennau'r Cyngor er mwyn pwysleisio'r ffaith eu bod nhw'n cymryd rhan ac yn cefnogi strategaeth mynychu'r ysgol yr awdurdod lleol. Mae pecyn gwybodaeth wedi'i anfon at ysgolion i hyrwyddo'r ddolen yma.
- 4.5 Cafodd y brand 'Super Fynychwr' mewn Ysgolion Cynradd ei wella a'i ail-lansio (gweler Atodiad Dau). Mae'r Super Fynychwr yn gosod yr her ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd lefelau presenoldeb da bob amser. Yn y flwyddyn academaidd 2018/19, cafodd 103 o wasanaethau ysgol eu cynnal. Yn y flwyddyn academaidd 19/20, mae 83 gwasanaeth eisoes wedi'u cynnal gyda threfnu gwasanaethau pellach ar y gweill. Bydd gwobrau ar ffurf bandiau garddwrn "Rwy'n Super Fynychwr" lliwgar yn cael eu darparu i'r ysgolion bob tymor am y cyflawniadau canlynol:
- presenoldeb o 97% neu'n uwch na hynny yn ystod y tymor;
 - y disgybl y mae ei bresenoldeb wedi gwella fwyaf (wedi'i bennu gan yr ysgol);
 - yr unigolyn sydd wedi goresgyn y problemau mwyaf i fod yn bresennol yn yr ysgol (wedi'i ddewis gan yr ysgol).
- 4.6 Mae'r ymgyrchoedd Super Fynychwr a Mynychu Heddiw, Cyflawni Yfory hefyd wedi datblygu baneri newydd sydd wedi cael eu dosbarthu i bob ysgol yn yr Awdurdod. Mae ysgolion uwchradd yn derbyn dwy faner (un ddelwedd gyda dau ddyn, un ddelwedd gyda dwy fenyw).
- 4.7 Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi bod yn bresennol mewn achlysuron ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn ystod digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys Picnic y Tedis, yn hyrwyddo buddion mynychu'r ysgol. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n awyddus i ailwampio deunydd marchnata i gael effaith ychwanegol mewn achlysuron yn y dyfodol.

Blaenoriaeth 2: Adolygu, gwerthuso a datblygu ymhellach y defnydd o ddata, y broses o'i ddadansoddi a'r mecanweithiau adrodd er mwyn llywio gwella gwasanaethau ar lefel awdurdod lleol ac ysgol

- 4.8 Mae adroddiadau data presenoldeb wedi'u haildrefnu yn unol â fframwaith Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn cael yr wybodaeth sy'n ofynnol i fonitro eu cyflawniad a nodi'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r rhain yn cynnwys data'r grŵp 'agored i niwed' (does dim modd eu hadnabod) a data tueddiadau yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi'u rhannu gan hanner tymor.
- 4.9 Cafodd y dulliau ar gyfer lledaenu'r data gydag ysgolion eu hadolygu. Bellach, mae adroddiadau yn cael eu hanfon at bob Pennaeth ac at Arweinwyr Presenoldeb Ysgolion Uwchradd ac yn cael eu rhoi ar RCT Source i Ysgolion oddeutu pythefnos ar ôl diwedd pob hanner tymor.

- 4.10 Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, rydyn ni hefyd yn cyd-osod adroddiadau data Presenoldeb â'r adroddiadau Gwaharddiadau o'r Ysgol i ddarparu proses rhannu data mwy amserol, cadarn ac effeithiol er mwyn i ysgolion allu craffu a gweithredu camau yn ei herbyn.

Blaenoriaeth 3: Parhau i ddatblygu system her a chymorth gadarn a chynaliadwy ar gyfer gwella presenoldeb yn yr ysgol, gan gysylltu â blaenoriaethau allweddol eraill sy'n effeithio ar absenoldeb ac sy'n cael ei effeithio ganddo

- 4.11 Ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19, cafodd fframwaith her a chymorth diwygiedig ei sefydlu. Mae'n cael ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd i gynnwys model Ymateb Graddedig sy'n gweithio fesul cam ac yn eistedd ochr yn ochr â model tebyg ar gyfer Gwaharddiadau. Bydd yn cael ei adolygu gan nifer ddethol o Benaethiaid cyn ei rannu a'i weithredu'n ehangach.
- 4.12 Mae'r fframwaith a'r ymateb graddedig yn cynnwys gwiriadau cydymffurfio â chofrestriad sy'n cael eu gwneud gan Swyddogion Cymorth Mynychu'r Ysgol / Ymgysylltu ym mhob ysgol bob tymor. Mae anghysondebau codio a phryderon ymarfer sylfaenol yn cael eu codi gyda'r pennaeth / arweinydd presenoldeb yn ystod y sesiynau yma a bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddyfeisio i gywiro/gwella'r meysydd sydd wedi'u nodi er mwyn sicrhau cywirdeb cofrestri ar draws pob ysgol yn yr Awdurdod.
- 4.13 Mae unrhyw bryderon sylweddol ynglŷn â chodio a/neu brosesau yn cael eu dwysáu i arweinydd carfan lleoliadau cynradd neu Bennaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ar gyfer lleoliadau uwchradd. Bydd e/hi wedyn yn trefnu ymweliad 'ymateb i ddata' gyda'r Pennaeth / Arweinydd presenoldeb er mwyn cynnal archwiliad mwy trylwyr o'r prosesau a'r dulliau gweithredu yn yr ysgol, gan dynnu sylw at y meysydd i'w gwella a'r arferion da. Mae cynllun gweithredu ffurfiol ynghyd ag amserlen ar gyfer cyflawni'r camau yn cael ei greu yn rhan o'r cyfarfod cychwynnol. Bydd y cyfarfod adolygu yn ailedrych ar y camau gweithredu i benderfynu a ydyn nhw wedi cael eu cyflawni a'r effaith mae hynny wedi'i chael.
- 4.14 Ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder sylweddol, yn seiliedig ar ddata tymhorol / blynyddol sy'n peri pryder neu le na fu llawer o welliant mewn cynlluniau gweithredu blaenorol, mae cyfarfodydd amserol dan arweiniad data gyda phenaethiaid gyda'r Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, y Pennaeth Cyflawniad (Cynradd neu Uwchradd), a'r Ymgynghorydd Her yn cael eu cynnal. Yr ysgolion yma fydd y rheiny nad yw'n ymddangos bod eu harferion yn effeithiol wrth wella a chynnal lefelau presenoldeb. Bydd cymorth yn cael ei gynnig i hunanwerthuso safle presennol yr ysgol o'i gymharu â'r tueddiadau 3 blynedd, ac i ddatblygu cynllun gwella dilynol i fynd i'r afael â'r materion yma.
- 4.15 Lle nad oes fawr o welliant o hyd, os o gwbl, mae cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ochr yn ochr â'r partion sydd eisoes wedi'u crybwyll o'r blaen.

Blaenoriaeth 4: Datblygu mecanwaith effeithlon a hunangynhaliol ar gyfer rhannu arferion da a gwybodaeth yn brydlon y mae modd ei ddefnyddio'n annibynnol gan ysgolion ar unrhyw adeg

- 4.16 Cafodd Pecyn Cymorth Presenoldeb Ysgol ei ddosbarthu i bob ysgol yn 2018 gyda pholisïau enghreifftiol, fframwaith hunanwerthuso ac ymyriadau i godi'r lefel presenoldeb yn yr ysgol cyn cyrraedd y trothwy ar gyfer atgyfeirio i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Mae'r pecyn cymorth yma wedi'i adolygu a'i ddiwygio ar gyfer Tymor yr Hydref 2019. Os yw'r camau ataliol yma'n cael eu rhoi ar waith yn llawn, mae'n bosibl bydd modd lleihau nifer y disgyblion sydd wedi sefydlu patrwm o fod yn absennol.
- 4.17 Mae arfer da yn broses sy'n esblygu'n barhaus a hoffen ni sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu pan fo'n briodol. Ar ddechrau'r Strategaeth Mynychu'r Ysgol, RCT Source i Ysgolion oedd y platfform i rannu gwybodaeth ac adnoddau yn electronig. Cafodd ei ddiweddarau tua dechrau blwyddyn academiaidd 2018/19 gyda gwybodaeth gan feysydd strategol allweddol, megis cyfathrebu â disgyblion, cyfathrebu â rhieni, data a gwerthuso, ymateb graddedig ac ymyriadau, polisi presenoldeb yr ysgol, cysylltu â'r Corff Llywodraethu, mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus, cau'r bwch, ac ati.
- 4.18 Cafodd y defnydd o'r platfform Source i Ysgolion ei adolygu yn ystod Tymor yr Haf 2018/19, a chafodd nifer o faterion eu cyflwyno mewn adborth gan ysgolion. Roedd hynny'n cynnwys diffyg dealltwriaeth o'r platfform gan staff ysgolion (mae angen enw defnyddiwr a chyfrinair ar wahân ar y platfform), diffyg diweddariadau o feysydd gwasanaeth eraill ac felly defnydd isel ar draws ein hysgolion. Rydyn ni felly'n gweithio gyda Systemau Data i ddod o hyd i blatfform mynediad agored arall er mwyn rhannu arfer da.
- 4.19 Cafodd diwrnodau Lles eu cynnal ar gyfer staff ysgolion uwchradd. Roedden nhw'n cynnig cefnogaeth ysgol i ysgol er mwyn llunio model gwella cynaliadwy. Helpodd y cyfarfodydd yma nodi arfer da, a gafodd ei gyflwyno gan yr ysgol berthnasol i eraill ym Mwrdeistref y Sir. Cafodd sesiynau trafod a gweithdai eu trefnu i wella sylfaen wybodaeth ac arbenigedd ysgolion, gyda meysydd allweddol yn cynnwys Mynychu'r Ysgol a Lles, Modelau Seicoleg Gadarnhaol, defnyddio systemau fel Siartiau Dosbarth a Systemau Ymddygiad.
- 4.20 Dros y flwyddyn nesaf, ein nod yw edrych ar Achlysuron Lles i bob ysgol rannu arfer da, gan gynnwys ysgolion cynradd a chyd-weithio gyda'r Strategaeth Les sy'n cael ei llunio gan y Gwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad.

Blaenoriaeth 5: Adolygu, gwerthuso ac ail-lansio mentrau ac ymyriadau allweddol er mwyn cefnogi presenoldeb da a mynd i'r afael ag absenoldebau

- 4.21 Er bod nifer y disgyblion sydd wedi'u gweld mewn mannau cyhoeddus yn ystod y diwrnod ysgol wedi cwmpo dros y blynyddoedd diwethaf, mae angen i ni barhau i fynd i'r afael â thriwanta.
- 4.22 Cafodd cynllun 'Cadw Llygad ar Driwanta' ei roi ar waith yn 2018/19. Gan ddefnyddio gwybodaeth leol gan ysgolion, aeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i ardaloedd lle'r oedd achosion o driwantiaeth. Mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i ehangu cwmpas 'Cadw Llygad ar Driwanta' ac ymgorffori gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol i gynnal patrolau rheolaidd yn dilyn cyfnod cofrestru mewn trefi.
- 4.23 Mae'r posibilrwydd o gael 'Parthau Rhydd Rhag Triwantiaeth' yn cael ei ystyried. Ym mheilot cychwynnol y cynllun, ystyriwyd dau drywydd.

- 4.24 Trywydd cyntaf y peilot oedd gweithio gyda'n Gwasanaeth Llyfrgelloedd a gweithredu menter Sirol gyfan i staff y Llyfrgell herio a chofnodi darpar driwantiaid gan ddefnyddio adeiladau llyfrgell yn ystod y dydd. Hyd yma, does dim adroddiadau am driwantiaid yn gwneud defnydd o'r gwasanaethau hyn. Mae pobl ifainc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn defnyddio adeiladau'r llyfrgelloedd ac mae staff llyfrgelloedd yn gofyn am dystiolaeth rhieni o hyn cyn caniatáu i ddisgyblion fynd i mewn yn ystod oriau ysgol.
- 4.25 Roedd ail drywydd y peilot yn cynnwys aelodau o'r Gwasanaeth Presenoldeb a Lles yn ymweld â busnesau bach yn ardaloedd Aberpennar, Abercynon ac Aberdâr i siarad â pherchnogion am driwantiaeth a Thrwyddedu Plant. Roedd adborth cychwynnol gan berchnogion busnes yn amrywiol. Roedd rhai yn gwrthod mynediad i blant oed ysgol yn ystod y dydd, ond roedd busnesau eraill yn wylidwrs o droi plant oed ysgol i ffwrdd rhag colli incwm a phoeni y gallai gwneud arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 4.26 Cafodd 'Linell Gymorth Plentyn sy'n Colli Addysg (CME)' hefyd ei thrafod fel syniad yn rhan o'r cwmpas dichonoldeb. Fodd bynnag, daethon ni i'r casgliad y byddai unrhyw 'linell gymorth' yn dod ar gost ychwanegol i'r Gwasanaeth ac y byddai angen i'r Gwasanaeth ei staffio. Felly penderfynwyd ei bod yn fwy doeth gofyn i aelodau o'r cyhoedd gysylltu â rhif ffôn presennol y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Yn rhan o ailgynllunio deunyddiau marchnata'r Gwasanaeth, rydyn ni'n gofyn i'r galwadau ffôn yma gael eu gwneud.
- 4.27 Mae mentrau yn yr ysgol sy'n cael eu cyflwyno gan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, yn cael eu hadolygu, gyda mentrau effeithiol yn cael eu cyflwyno. Mae cadw'r cydbwysedd rhwng gwaith achos a mentrau yn cael ei oruchwyllo'n gyson i sicrhau nad yw'r disgyblion mwyaf bregus yn cael eu hanwybyddu ar draul mentrau eraill. Mae'r mathau o fentrau gafodd eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:
- Her Super Fynychwr (gweler 4.5)
 - Grwpiau targed (6 wythnos) wedi'u hanelu at rai sy'n mynychu 86%-90% o'r amser - 2 grŵp, cyfanswm o 19 o blant. Mae presenoldeb wedi codi 4.0% ar gyfartaledd.
 - Sesiynau Cyfarfod a Chyfarch - 18 sesiwn wedi'u cynnal gyda 145 o ddisgyblion yn cymryd rhan
 - Carfanau Ymateb i Absenoldeb Dyddiol (DARTs) - cynnal 22 sesiwn gyda 297 o ddisgyblion yn cymryd rhan
 - Patrolau Triwantiaeth - cynnal 9 sesiwn gan ddal 11 disgybl a'u dychwelyd i'r ysgol
- 4.28 O ganlyniad i lwyddiant rhai o fentrau'r llynedd, cafodd eu cyflwyno'n ehangach ar draws y Gwasanaeth. Wrth symud ymlaen, bydd yn ofynnol i bob Swyddog Cymorth Mynychu'r Ysgol / Ymgysylltu redeg grŵp targed mewn un ysgol bob tymor, a hynny'n dilyn cysgodi staff sydd eisoes yn gyfarwydd â'r broses. Bydd hyn yn arwain at 20 grŵp targed bob tymor. Bydd gofyn hefyd i'r ysgolion dan sylw ganiatáu i aelod o staff gefnogi'r grŵp targed er mwyn i'r ysgol allu parhau â'r rhain pan ddaw cefnogaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i ben. Mae dyddiadau mentrau eraill ar gyfer y flwyddyn hefyd ar y gweill, gyda dadansoddiadau o ddata ysgolion yn help i fynd i'r afael â'r rhai sydd angen eu gwella fwyaf ac ar adegau sy'n adlewyrchu

cynnydd mewn absenoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys 13 DART wedi'u hamserlennu a 5 sesiwn Cyfarfod a Chyfarch.

Blaenoriaeth 6: Gwella gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod yr amcan allweddol, sef gwella presenoldeb yn yr ysgolion, wedi'i wreiddio ar draws asiantaethau mewnol ac allanol.

- 4.29 Mae'r strategaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob maes gwasanaeth ar draws yr awdurdod gymryd cyfrifoldeb gyda'i gilydd am wella presenoldeb yn yr ysgol. Felly, mae angen sefydlu a/neu ddatblygu cysylltiadau effeithiol â'r gwasanaethau mewnol er mwyn sicrhau bod presenoldeb yn yr ysgol yn cael ei ystyried wrth gynllunio cymorth i blant a'u teuluoedd.
- 4.30 Datblygiad allweddol fu sefydlu cyfarfodydd rhwng ysgolion, y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a Seicolegwyr Addysg i sicrhau bod ysgolion yn blaenoriaethu dysgwyr ar gyfer y gefnogaeth briodol gan wasanaethau cymorth i'w cynorthwyo i ailgydio yn eu haddysg. Yn ystod y camau cynnar, mae'r cyfarfod cychwynnol wedi canolbwyntio ar absenoldebau difrifol, parhaus gyda phresenoldeb o dan 60%. Mae cyfarfodydd ymgynghori wedi'u sefydlu i gryfhau'r ymateb graddedig yr ysgol i ddysgwyr gyda phresenoldeb gwael yn barhaus a chefnogaeth y gyfarwyddiaeth Addysg. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n canolbwyntio ar cynnal cyfarfod â'n hysgolion uwchradd gyda'r data presenoldeb mwyaf pryderus bob hanner tymor a chyfarfod yn dymhorol gyda'r holl ysgolion uwchradd eraill.
- 4.31 Mae angen datblygiad pellach i gynnwys mentrau sy'n cynnwys llais y dysgwyr er mwyn casglu gwybodaeth gan y garfan bresennol o ddisgyblion am yr heriau sy'n eu hwynebu o ran mynychu'r ysgol.
- 4.32 Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod cysylltiadau tebyg yn cael eu sefydlu gyda phartneriaid allanol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifainc a'u teuluoedd i sicrhau bod presenoldeb yn yr ysgol yn flaenoriaeth iddyn nhw yn eu cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredu/cymorth unigol ar gyfer y disgyblion y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Cafodd cyfarfod cychwynnol ei gynnal ym mis Medi 2019 gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuencid, y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a Mynychu'r Ysgol a Lles i ddatblygu'r dull cydweithredol yma.

5. MONITRO AC ADOLYGU

- 5.1 Mae'r strategaeth wedi'i datblygu ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2018 ac Awst 2021 (tair blynedd academiaidd) gyda'r nod o atal gostyngiadau pellach mewn cyfraddau presenoldeb ysgolion. Mae pedwar dangosydd perfformiad allweddol yn rhan o'r strategaeth. Dyma ganlyniadau blwyddyn academiaidd gyntaf y cynllun:
- 5.2 Mae'r ddau ddangosydd cyntaf yn ymwneud â phresenoldeb ysgolion uwchradd a chynradd o gymharu â'r targedau. Bu cwmp ym mhresenoldeb ysgolion uwchradd (gan gynnwys ysgolion arbennig) o 92.9% yn 2017/18 i 92.8% yn 2018/19, gan syrthio ymhell o gyrraedd y targed uchelgeisiol o 94.1%. Cynyddodd presenoldeb ysgolion cynradd (gan gynnwys ysgolion arbennig) o 94.2% i 94.3% yn ystod yr un cyfnod ond roedd hefyd yn is na'r targed o 95.1% ar draws RhCT. Er ei fod yn siomedig bod presenoldeb ysgolion uwchradd wedi gostwng, mae cyfradd y dirywiad

wedi gostwng ac rydyn ni wedi gweld gwelliannau ar lefel ysgolion cynradd er nad yw wedi cyrraedd y safon uchel y gwnaethon ni osod ein targed yn ei herbyn.

	Blwyddyn Academaidd			
	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer yr atgyfeiriadau wedi'u derbyn gan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles	1195	1663	1686	1706

- 5.3 Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth wedi parhau i gynyddu. Er yr hoffon ni weld y rhif yma'n lleihau wrth i bresenoldeb wella, mae'n dangos bod ysgolion yn defnyddio'r gwasanaeth yn dda pan fo angen. Ar gyfer 2018/19, cafodd ysgolion gais i gwblhau, wrth atgyfeirio, y camau roedden nhw wedi'u cymryd o fewn yr ysgol fel rhan o ymateb graddedig i absenoldebau. Ar gyfer 2019/20, mae hyn hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer ein hatgyfeiriadau Lles er mwyn sicrhau bod disgwyliad clir i ysgolion reoli prosesau mewnol yn fwy effeithiol a darparu cefnogaeth i ddisgyblion yn unol â'r anghenion y maen nhw'n eu cyflwyno.
- 5.4 Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn ymgymryd â'r ymateb graddedig yma ac yn ymgymryd ag atgyfeiriadau amserol, bydd yr holl Swyddogion Cymorth Mynychu'r Ysgol/ Ymgysylltu yn cwrdd ag uwch aelod o staff ysgolion bob hanner tymor i drafod achosion agored, atgyfeiriadau posibl a phrosesau'r ysgol. Mae hyn yn ychwanegol at y gwiriadau cydymffurfio â chofrestriad a'r protocolau Cymorth a Her.
- 5.5 Cafodd manylion ailstrwythuro'r Gwasanaeth eu hamlinellu yn 3.3. O ganlyniad i adborth gan ysgolion ac i wella trefniadau gweithio, cafodd dau newid sylweddol eu gwneud. Ers hynny, mae Swyddogion Cymorth Mynychu'r Ysgol / Ymgysylltu wedi cael eu hail-osod a'u dyrannu ar sail ysgol, yn hytrach nag ar sail ddaearyddol, i wella perthnasoedd ag ysgolion. Mae Arweinwyr Carfan hefyd wedi'u rhannu rhwng Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái i sicrhau bod modd iddyn nhw weithredu her a chefnogaeth effeithiol, yn hytrach na gweithredu dros dri thrywydd, sef Lles ar gyfer RhCT gyfan; Presenoldeb y Dwyrain a Phresenoldeb y Gorllewin.
- 5.6 Mae'r ddau ddangosydd cyflawniad allweddol olaf yn amgylchynu bylchau Prydau Ysgol am Ddim yn y cyfnod cynradd ac uwchradd. Yn 2018/19, gwnaethon ni gyflawni bwlch o 2.3% ar lefel gynradd, sy'n hafal i'r hyn gafodd ei osod yn 2017/18. Ar lefel uwchradd, gwnaeth y bwlch ostwng o 5.2% yn 2017/18 i 4.8% yn 2018/19. Dyw holl ddata Cymru ddim wedi'i ryddhau eto - dim ond at ddibenion cymharol. Cyfartaledd Cymru gyfan yn 2017/18 oedd 3.0% yn y Cynradd a 5.1% yn y cyfnodau Uwchradd. Mae'r camau yma i leihau'r bwlch rhwng ein disgyblion Prydau Ysgol am Ddim a disgyblion nad ydyn nhw'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn hynod gadarnhaol. Y nod dros ddwy flynedd nesaf y strategaeth yw parhau i leihau'r bylchau er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim yn gallu cyflawni eu potensial.
- 5.7 Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn parhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd i gymharu â'r cynllun gweithredu. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwr Addysg bob chwarter.

- 5.8 Bydd diweddariadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc i'w hadolygu a'u herio.

6. CASGLIAD

- 6.1 Ym mlwyddyn gyntaf y Strategaeth, mae nifer o feysydd wedi cael eu cwmpasu gyda mentrau, gwaith partneriaeth ac ymyriadau sydd wedi profi'n llwyddiannus ac sy'n parhau i weithredu.
- 6.2 Rhaid cyflawni'r chwe maes blaenoriaeth os yw'r strategaeth am fod yn effeithiol a sicrhau'r canlyniadau mwyaf posibl. Lle dyw gweithredoedd ddim o dan y meysydd blaenoriaeth yma wedi profi mor llwyddiannus â'r gobaith, mae gweithredoedd newydd wedi'u hymgorffori yng nghynllun eleni.
- 6.3 Mae angen mwy nag un gwasanaeth neu sefydliad i wella presenoldeb ysgol, a bydd ymdrechion i sicrhau dull aml-bartneriaeth yn faes ffocws allweddol eleni.
- 6.4 Bydd angen i welliannau pellach yn y gwasanaeth Addysg ystyried presenoldeb yn yr ysgol a rhoi tystiolaeth ynglŷn â sut y byddan nhw'n cyfrannu at wella'r agenda presenoldeb.

ATODIAD 1

CYNLLUN GWEITHREDU GWELLA PRESENOLDEB YR YSGOL 2019/20

Pa wahaniaeth bydd cyflawni'r cynllun yma'n ei wneud i ddefnyddwyr y gwasanaeth/trigolion RhCT		• Gwell cyfraddau presenoldeb ar draws y ddau gyfnod ysgol; • Llai o fwllch rhwng presenoldeb disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, a'r rhai sydd ddim yn eu derbyn; • Cyflawniadau addysgol gwell i blant a phobl ifainc; • Gwell lles disgyblion er mwyn gwella i wella'u hymrwylad i ddysgu.		
Sut byddwn ni'n mesur ein cynnydd?	<i>Dangosyddion Perfformiad, lle bo hynny'n berthnasol, neu fesurau eraill e.e. adborth o arolwg.</i>		Data blwyddyn academaidd 2018/19	Targed blwyddyn academiaidd 2019/20
	1	% o ddisgyblion sy'n bresennol mewn Ysgolion Cynradd (yn flynyddol)	94.3%	I'w gadarnhau
	2	% o ddisgyblion sy'n bresennol mewn Ysgolion Uwchradd (yn flynyddol)	92.8%	94.1%
	3	% bwllch rhwng disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, a'r rhai sydd ddim yn eu derbyn - cynradd	2.3%	<2.3%
	4	% bwllch rhwng disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, a'r rhai sydd ddim yn eu derbyn - uwchradd	4.8%	<4.8%

Beth ydyn ni'n ceisio ei gyflawni?			BLAENORIAETH 1. <u>Gwella ymwybyddiaeth rhieni, disgyblion a'r cyhoedd o'r problemau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb wrth feithrin dull gweithredu awdurdod cyfan er mwyn hybu presenoldeb mewn ysgolion a'i wella;</u>		
Camau gweithred u Allweddol	Camau i'w Blaenoriaethu		Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol
	1.	Datblygu'r ymgyrch farchnata ymhellach i godi proffil presenoldeb ysgol a'r disgwyliadau ar rieni a disgyblion	• Parhau i ymgorffori negeseuon “Super Fynychwyr” a “Mynychu Heddiw, Cyflawni Yfory” ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac annog gwell cysylltiadau ag ysgolion i helpu i hyrwyddo'r neges • Cysylltu presenoldeb ysgol â chyrhaeddiad academiaidd / canlyniadau data lleol RhCT yn lle dibynnu ar ddata lefel Cenedlaethol a hyrwyddo hyn yn effeithiol • Parhau i ddefnyddio ffocws y strategaeth yn unol â'r canlynol: - o Tynnu sylw at y prif 'esgusodion' dros absenoldeb fydd ddim yn cael eu hawdurdodi / eu derbyn - o Cyfleu disgwyliadau rhieni / cynhalwyr o ran presenoldeb da yn yr ysgol - o Cyfleu canlyniadau posibl absenoldeb heb ganiatâd - o Codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad	Yn mynd rhagddo	DW
				Rhagfyr 2019	DW
				Yn mynd rhagddo	DW

			• Defnyddio mentrau effeithiol, h.y. Gwasanaethau Super Fynychwyr, mewn astudiaethau achos fideo, ffotograffau a hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol • Cyhoeddi'r fideos byr yma ar dudalen corfforaethol Facebook a Twitter a sicrhau eu lle ar dudalen we corfforaethol y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles • Postio / trydar yr rhain ar amserlen wedi'i chynllunio ymlaen llaw yn unol â'r cyfnodau absenoldeb allweddol, gydag URL i'r dudalen we i gael mwy o wybodaeth am y pwnc • Cwmpasu'r angen i edrych ar lwybrau cyfryngau cymdeithasol amgen oherwydd y defnydd newidiol o lwyfannau • Lansio tudalen we gorfforaethol newydd y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles gan sicrhau ei bod yn gyfredol a bod ganddi wybodaeth sy'n berthnasol i anghenion rhieni / cynhalwyr a disgyblion • Ymgymryd â gweithgaredd Llais Disgyblion gan edrych ar frandio amgen wedi'i anelu at ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 • Cysylltu ag ysgolion cynradd i edrych ar yr angen am Super Fynychwr benywaidd • Hyrwyddo'r disgwyliadau sy'n ofynnol gan riant a'r canlyniadau posibl y gallan nhw eu hwynebu os fydd y disgwyliadau ddim yn cael eu cyflawni ar gyfryngau cymdeithasol, gwefannau ac ar ffurf llythyr at rieni	Hydref 2019	DW
				Tachwedd 2019	ST
				Yn mynd rhagddo	ST
				Rhagfyr 2019	DW
				Mehefin 2019	DW
					DW
				Ionawr 2020	DW
				Ionawr 2020	DW
				Mehefin 2019	DW

2.	Cyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r canlyniadau posibl ar gyfer absenoldeb o'r ysgol	- Sicrhau fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddefnydd RhCT o Adran 444 1 (a) o Ddeddf Addysg 1996, sy'n caniatáu i lysoedd ystyried dedfryd o garchar i rieni disgyblion sy'n absennol ar sawl achlysur, trwy roi cyhoeddusrwydd a'r goblygiadau hyn ar y wefan gorfforaethol a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol - Cyfathrebu'r defnydd cyfredol o hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb yn RhCT ac ailgyhoeddi dolen i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig am absenoldeb anawdurdodedig trwy ddatganiadau i'r wasg - Cyhoeddi canlyniadau misol y Llys ar gyfer achosion sydd ar y gweill a Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn datganiadau i'r wasg	Mehefin 2019	DW
			Mehefin 2019	DW
			Rhagfyr 2019	DW
3.	Codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb da yn yr ysgol gyda'r disgyblion	- Cyfathrebu'r 'rhesymau annerbyniol' dros absenoldeb trwy'r ysgol trwy faneri ysgol, poster. - Cyflwyno Grwpiau Ffocws gyda Swyddogion Cymorth Presenoldeb / Ymgysylltu i ymgymryd ag un grŵp yr un bob tymor - Ail-gadarnhau'r rhesymau dros sicrhau presenoldeb da yn yr ysgol, h.y. cyswllt â chyrhaeddiad/cyflawniadau a rhagolygon y dyfodol trwy sesiynau grŵp targed ac ar gyfryngau cymdeithasol - Annog ysgolion i ddefnyddio eu rhwydweithiau eu hunain i hyrwyddo presenoldeb ysgol da i rieni/gynhalwyr (e.e. Class Dojo, ParentMail ac ati)	Mai 2019	DW
			Medi 2019	ASOs / AEOs
			Tachwedd 2019	DW
4.	Codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb da yn yr ysgol gyda staff yr ysgol	- Edrych ar ymarferoldeb hyfforddiant presenoldeb ehangach i ategu hyfforddiant SIMS ar gyfer staff ysgolion - Rhoi gwybod i ysgolion am ddatblygiadau am bresenoldeb ysgol mewn cyfarfodydd penaethiaid bob tymor - Annog dull ysgol gyfan o bresenoldeb i ddiffinio rôl/cyfrifoldeb pob aelod o staff wrth reoli a hyrwyddo presenoldeb	Yn mynd rhagddo	DW
			Ionawr 2020 Yn mynd rhagddo	DW
			Mai 2019	Y staff i gyd

	5.	Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymgyrch	• Coladu data meintiol: - o Nifer sy'n ymweld â'r wefan - o Mewnwelediadau Facebook - o Cynnydd mewn presenoldeb ysgol	Cylchlythyr chwarterol	DW
			• Coladu data ansoddol: - o Cwynion wedi'u derbyn - o Adborth o'r ysgol - o Achlysuron llais y dysgwr	Cylchlythyr chwarterol	DW
			• Cyflwyno canfyddiadau i'r Cyfarwyddwr Addysg bob chwarter ar gyfer penderfyniadau gwella gwasanaethau		DW
			• Cyflwyno canfyddiadau i'r Pwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifainc yn flynyddol ar gyfer trafodaethau gwella pellach.	Cylchlythyr chwarterol	DW
				Pob blwyddyn	

Beth ydyn ni'n ceisio ei gyflawni?		BLAENORIAETH 2. <u>Adolygu, gwerthuso a datblygu ymhellach y defnydd o ddata, y broses o'i ddadansoddi a'r mecanweithiau adrodd er mwyn llywio gwella gwasanaethau ar lefel awdurdod lleol ac ysgol</u>			
Camau gweithredu Allweddol	Camau i'w Blaenoriaethu		Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol
	1.	Datblygu adroddiadau presenoldeb defnyddio'n effeithiol ysgolion i'w gan	- Datblygu'r adroddiadau presenoldeb hanner tymor cyfredol i gynnwys gwybodaeth berthnasol am waharddiadau - Gweithio ochr yn ochr â'r garfan Data a Systemau i gwmpasu'r angen i gynnwys grwpiau ychwanegol o ddisgyblion sydd heb eu cynnwys mewn adroddiadau data ar hyn o bryd e.e. plant Aelodau'r Lluoedd Arfog - Ailstrwythuro'r adroddiadau i gyfri'r newidiadau mewn ysgolion, gan gynnwys clwstwr annibynnol ar gyfer y pedair 'Pob Oed' ond hefyd gan gynnwys eu data cyfnod cynradd ac uwchradd ochr yn ochr ag ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer cymariaethau ehangach	Hydref 2019 Hydref 2019 Medi 2019	DW / CJ DW / LH DW / LH
	2.	Adolygu'r broses gyfredol o ledaenu data i ysgolion a'i wella yn ôl yr angen	- Sicrhau fod ysgolion yn adrodd yn amserol ar yr aelod staff sy'n gyfrifol am dderbyn a dadansoddi'r adroddiadau data canol blwyddyn - Adolygu'r e-ystorfa ganolog ar gyfer yr adroddiadau data, gan ddarparu data yn ôl yr angen	Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo	DW DW

	3. Herio a chefnogi datblygiad darpariaeth yn yr ysgol ar gyfer cynyddu presenoldeb ysgol trwy sicrhau defnydd effeithiol o ddata i ddefnyddio adnoddau, llywio newidiadau ac ail-ganolbwyntio ar amcanion sydd angen eu blaenoriaethu	• Adolygu'r modd y mae'r ysgol yn defnyddio'r pecynnau data sy'n cael eu darparu iddyn nhw trwy grŵp tasg a gorffen • Sicrhau bod clercod, swyddogion presenoldeb ysgol a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn defnyddio SIMS yn llawn at ddibenion monitro a gwerthuso presenoldeb ysgol gan gynnig cyngor a chefnogaeth ar ymateb graddedig yr ysgol • Gweithio gydag ysgolion i adolygu pwyntiau allweddol sy'n ymddangos yn eu Hunanwerthusiad Presenoldeb • Adolygu ansawdd hunanarfarnu fel mecanwaith wrth wella presenoldeb ysgol gan gynnwys rhannu modelau arfer dda	Yn mynd rhagddo Rhagfyr 2019 Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo	DW DW DW DW
--	---	--	--	---

	4.	Cryfhau rheolaeth cyflawniad y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a phob ysgol trwy ddefnyddio data yn effeithiol	• Datblygu rôl rôl y Swyddog Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn rhan o'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i gynnig cefnogaeth bwrpasol i ysgolion lle bo angen a chefnogi dadansoddiad o ddata ysgolion gan gynnwys anghysonderau. • Parhau i fonitro defnydd cod ysgolion i sicrhau ei fod yn gywir / briodol ac yn mynd i'r afael ag ef yn amserol gydag ysgolion, gan ddarparu arweiniad yn ôl yr angen (cyswllt â Blaenoriaeth 3) • Dadansoddi a gwerthuso data ysgolion yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio cymariaethau ag ysgolion tebyg i herio defnydd cod a lefel absenoldeb anawdurdodedig / awdurdodedig, i bennu ysgolion sydd â'r angen am gymorth, adnoddau a her ychwanegol (cyswllt â Blaenoriaeth 3) • Defnyddio data sy wedi'i nodi uchod i lywio'r defnydd priodol o adnoddau'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ar gyfer: - o Mentrau (Blaenoriaeth 5) - o Cefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol (Blaenoriaeth 5) - o Cyfarfodydd Herio a Chefnogi (Blaenoriaeth 3) • Adroddiadau amserlen i reoli gwaith achos swyddogion y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn effeithiol, gan gynnwys: - o Dilyniant amserol achosion yn unol â llifoedd gwaith gwasanaeth - o Monitro a herio canlyniadau achosion i sicrhau bod y pwyslais ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol - o Gwerthuso effaith cefnogaeth ar ganlyniadau presenoldeb - o Defnyddiwch ddata perfformiad gwasanaeth i herio arfer cyfredol a llywio'r modd o fynd ati i wella gwasanaethau • Annog defnydd ehangach o arolygon adborth gan rieni er mwyn datblygu'r Gwasanaeth yn unol ag anghenion teuluol	Mehefin 2019 Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo Mehefin 2019 Yn mynd rhagddo	DW / CE DW / CJ / EH / KBJ DW / CJ / EH / KBJ DW / CJ / EH / KBJ DW / LH DW / CJ / EH / KBJ
--	----	--	--	---	---

Beth ydyn ni'n ceisio ei gyflawni?	BLAENORIAETH 3. <u>Datblygu system her a chymorth gadarn a chynaliadwy ymhellach ar gyfer gwella presenoldeb yn yr ysgol, gan gysylltu â blaenoriaethau allweddol eraill sy'n</u>
------------------------------------	---

		<u>effeithio ar absenoldeb ac sy'n cael ei effeithio ganddo</u>		
Camau gweithredu Allweddol	Camau i'w Blaenoriaethu	Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol
	1. Cydgrynhoi'r fframwaith cefnogaeth a her, ar gyfer proses uwchgyfeirio glir ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder	- Parhau i gynnal gwiriadau cydymffurfio â chofrestriad bob tymor ym mhob ysgol yn RhCT, dan arweiniad y swyddog cyswllt i sicrhau defnydd effeithiol o god a herio / diwygio anghysondebau o ran codio. Parhau i ddilyn cod lliw ag ysgolion (coch neu wyrdd) yn seiliedig ar ganlyniadau'r gwiriadau i lywio'r broses dadansoddi data - Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chonsortium Canolbarth y De er mwyn categorïddio pob ysgol - Esgoli anghysondebau codio sylweddol a phryderon ymarfer mewnol i arweinwyr carfan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles / pennaeth gwasanaeth Ymweliadau Ymateb Data (DRV) yn yr ysgolion sy'n peri pryder - Cynnal ymweliadau ar y cyd â'r Cynghorydd Her os yw canlyniad gwael yr Ymweliadau Ymateb Data yn seiliedig ar yr arweinyddiaeth yn yr ysgol - Nodi'r ysgolion sy'n achosi'r pryder mwyaf a dilyn pob cam ar y broses esgoli - Lle bo angen, cynnal cyfarfodydd Her a Chefnogaeth neu Wella Ysgol gyda'r Cyfarwyddwr Addysg, Uwch Gynghorwyr Her a Phennaeth Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Yr ysgolion fydd yn cael eu nodi ar gyfer yr ymyrraeth yma yw'r rhai lle dydy eu harferion na'u prosesau cyfredol yn effeithiol wrth sicrhau newid sylweddol. Bydd ysgolion yn cael eu cefnogi i hunanwerthuso eu sefyllfa bresennol a hanesyddol a datblygu cynllun gwella i fynd i'r afael â'r materion gyda chefnogaeth yr ALI os oes angen	Yn mynd rhagddo	Swyddogion Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
			Yn mynd rhagddo	DW
			Yn mynd rhagddo	CJ / EH / KBJ
			Yn mynd rhagddo	DW / CJ / EH / KBJ
			Yn mynd rhagddo	DW / CJ / EH / KBJ
			Yn mynd rhagddo	DW / BW / TB / GD / SC

	2	Cydlynau fforymau priodol ar gyfer staff presenoldeb yn yr ysgol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach er mwyn rheoli presenoldeb yn fwy effeithiol	• Parhau i ddarparu Diwrnodau Lles Uwchradd ar gyfer Arweinwyr Presenoldeb • Cyflwyno Diwrnodau Lles Cynradd i benaethiaid a / neu arweinwyr ar gyfer presenoldeb er mwyn hwyluso rhannu arfer da, trafod data i roi ei ysgol ei hun yn ei chyd-destun ac ymgynghori ar syniadau newydd • Cyflwyno Grwpiau Arloesi a Thasg a grwpiau Gorffen bach i adolygu meysydd pwnc allweddol a hwyluso gweithio rhwng ysgolion a ddylai fod yn hunangynhaliol	Pob Tymor Rhagfyr 2019 Rhagfyr 2019	BW / SC / DW TB / DW DW
--	---	---	---	--	--

Beth ydyn ni'n ceisio ei gyflawni?		BLAENORIAETH 4. <u>Datblygu mecanwaith effeithlon a hunangynhaliol ar gyfer rhannu arferion da a gwybodaeth yn brydlon y mae modd ei ddefnyddio'n annibynnol gan ysgolion ar unrhyw adeg.</u>			
Camau gweithred u Allweddol	Camau i'w Blaenoriaethu		Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol
	1.	Adolygu'r adnoddau sy'n cael eu darparu i ysgolion i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas	- Adolygu'r Pecyn Cymorth Presenoldeb Ysgol i gyfrif am y newidiadau yng Ngwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, datblygiadau cenedlaethol a cheisiadau am wybodaeth sy'n cael eu derbyn gan yr ysgol. Ail-anfon i ysgolion yn ddwyieithog - Rhoi templed polisi presenoldeb ysgol i ysgolion - Dyfeisio fframwaith strategaeth enghreifftiol i ysgolion ei fabwysiadu pan fydd presenoldeb yn flaenoriaeth. Sy'n cynnwys: - Dogfen hunanarfarnu - Templed cynllun gwella presenoldeb ysgol - Cynllun cyfathrebu	Medi 2019 Medi 2019 Medi 2019	DW DW DW
	2.	Hwyluso rhannu arfer da ar draws ysgolion	- Datblygu platform mynediad agored i'w ddefnyddio yn brif e-ystorfa ar gyfer yr holl ddogfennau / gwybodaeth arfer da ar draws y Gyfarwyddiaeth Addysg - Coladu'r holl arfer da cyfredol yn ôl meysydd strategaeth allweddol: - Cyfathrebu â rhieni - Data a gwerthuso - Gofynion codio - Dulliau ar gyfer casglu tystiolaeth ategol - Ymateb ac ymyriadau graddedig - Polisi presenoldeb ysgol - Cysylltiadau â'r Corff Llywodraethol - Cau'r Bwlch - Ymyriadau absenoldeb parhaus	Ionawr 2020 Mehefin 2019	CE DW / CJ / EH / KBJ

Beth ydyn ni'n ceisio ei gyflawni?		BLAENORIAETH 5. <u>Adolygu, gwerthuso ac ail-lansio mentrau ac ymyriadau allweddol er mwyn cefnogi presenoldeb da a mynd i'r afael ag absenoldebau</u>			
Camau gweithred u Allweddol	Camau i'w Blaenoriaethu		Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol
	1.	Gwella gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â thriwantiaeth y tu allan	- Ail-sefydlu cysylltiadau ar gyfer patrolau triwantiaeth ar adegau tymhorol allweddol gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain - Parhau i fonitro a datblygu 'Parthau Di-driwantiaeth' trwy gydol RhCT, a gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn aml - Datblygu deunyddiau marchnata i annog unrhyw aelod o'r cyngor neu'r cyhoedd i adrodd am ddisgyblion yn y gymuned sy'n triwantio ar ddiwrnodau ysgol	Hydref 2019	DW
				Yn mynd rhagddo	DW
				Medi 2019	DW

	2.	Adolygu ac ail-lansio mentrau yn yr ysgol fel gweithgareddau 'gwerth ychwanegol'	• Monitro gallu'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn barhaus i ymgymryd â gweithgareddau 'gwerth ychwanegol' ychwanegol yn ogystal â gwaith achos gan sicrhau dydy disgyblion sy'n agored i niwed ddim dan unrhyw anfantais trwy waith menter • Ail-lansio 'Her Super Fynychwr' a chynnig gwobr o fand garddwrn ym mhob lleoliad cynradd (ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig) i osod yr her i ddisgyblion trwy gydol y flwyddyn academaidd sydd i ddod • Cyflwyno grwpiau ffocws (ar draws pob lleoliad) ar gyfer y rhai sy'n uwch na'r trothwy yn nhermau atgyfeiriadau i wasanaeth ond lle mae presenoldeb yn dechrau cael ei nodi fel pryder. Adfer amser cylch yn unol a chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, ond yn cael ei reoli gan yr ysgol (e.e. argaeledd ystafelloedd, nodi disgyblion priodol, derbyn caniatâd gan rieni / cynhalwyr, sicrhau eu bod nhw'n bresennol yn y sesiwn, gwerthuso'r effaith ar bresenoldeb y cyfranogwyr) • Cynnig cynyddol o weithgareddau'r Garfan Ymateb Absenoldeb Dyddiol mewn ysgolion sydd â lefelau uchel o absenoldeb anawdurdodedig lle dydy'r rhieni / cynhalwyr ddim yn cysylltu â'r ysgol. Bydd y rhain yn cael eu cynnig yn ôl y data, lle mae'r angen mwyaf • Parhau i gynnig gweithgareddau Cyfarfod a Chyfarch mewn ysgolion sydd wedi'u nodi fel rhai â phroblemau o ran prydlondeb. Cynnig rhain fel set o weithgareddau i fonitro unrhyw droseddwyr mynych ac esgoli pan fo'n briodol. Ysgol i arwain ar y gweithgareddau yma, gan sicrhau bod staff yr ysgol yn bresennol ochr yn ochr â swyddogion Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles, gan uwchsgilio staff ysgolion i barhau i gyflawni'r rhain pan nad yw gwasanaeth yma'n bresennol. Cefnogi ysgolion i wneud gwaith dilynol ar y drafodaeth gyda rhieni gan anfon llythyrau, cynnal cyfarfodydd ac ati i gynorthwyo rhieni i wella • Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i fynychu achlysuron yr ysgol a rhai cymunedol i hyrwyddo'r angen am bresenoldeb da yn yr ysgol ac atgoffa rhieni am eu cyfrifoldeb am bresenoldeb eu plentyn. • Super Fynychwr i fynychu achlysuron cymunedol i godi proffil	Yn mynd rhagddo Medi 2019 Medi 2019 Ebrill 2019 Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo	DW / CJ / EH / KBJ Staff Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles Staff Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles DW / CJ / EH / KBJ DW / CJ / EH / KB 2 Carfan
--	----	--	---	--	---

Beth ydyn ni'n ceisio ei gyflawni?		BLAENORIAETH 6. <u>Gwella gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod yr amcan allweddol, sef gwella presenoldeb yn yr ysgolion, wedi'i wreiddio ar draws asiantaethau mewnol ac allanol.</u>			
Camau gweithred u Allweddol	Camau i'w Blaenoriaethu		Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiad Gweithredu	Swyddog Cyfrifol
	1	Datblygu cysylltiadau gwaith ymhellach â gwasanaethau mewnol i sicrhau amcan sy'n cael ei rannu i wella presenoldeb ysgol	- Gwella cyfathrebu trwy nodiadau briffio a chyfarfodydd carfan â meysydd gwasanaeth eraill i godi proffil presenoldeb da yn yr ysgol a sicrhau bod yr amcan yn cael ei gynnwys ym mhob cynllun lle bo hynny'n briodol. - Annog atgyfeiriadau plant a phobl ifainc sy'n absennol o addysg a bod y partneriaid mewnol yma'n cael eu hysbysu dydyn nhw bellach ddim yn derbyn addysg neu wedi symud allan o'r sir - Gwahodd meysydd gwasanaeth i wneud cyflwyniadau i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn ogystal â phenaethiaid fel eu bod nhw'n ymwybodol o'r cyfleoedd cymorth y mae modd i'r gwasanaeth yma eu cynnig i blant a phobl ifainc sydd wedi'u datgyweddu - Cyflwyno a datblygu fforymau i ysgolion, seicolegwyr addysg a Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles fynd i'r afael ag absenoldebau parhaus a sicrhau bod ysgolion yn blaenoriaethu dysgwyr am y gefnogaeth briodol i'w cynorthwyo nhw i ailgydio mewn addysg. - Sicrhau bod y strategaeth yma'n sail i holl bolisiâu a gweithdrefnau'r dyfodol sy'n cael eu datblygu gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg	Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo Medi 2019 Yn mynd rhagddo	DW Pob aelod o'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles DW DW / HJ GD / DW

	2	Sefydlu a / neu ddatblygu cysylltiadau gwaith ymhellach gydag asiantaethau allanol i sicrhau amcan sy'n cael ei ranni er mwyn gwella presenoldeb ysgol	- Gwella cyfarfodydd cyfathrebu ag asiantaethau allanol i godi proffil presenoldeb da mewn ysgolion a sicrhau bod yr amcan yn cael ei gynnwys ym mhob cynllun unigol lle bo hynny'n briodol - Annog atgyfeiriadau plant a phobl ifainc sy'n absennol o addysg a bod y partneriaid mewnol yma'n cael eu hysbysu dydyn nhw bellach ddim yn derbyn addysg neu wedi symud allan o'r sir - Gwahodd asiantaethau allanol i gyflwyno i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles fel eu bod nhw'n ymwybodol o'r cyfleoedd cymorth y mae modd i'r gwasanaeth yma ei gynnig i blant a phobl ifainc sydd wedi datgyweddu	Yn mynd rhagddo	DW
				Yn mynd rhagddo	Pob aelod o'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
				Pob Tymor	DW

ATODIAD 2

<<Logo'r ysgol>>

Annwyl Riant/Cynhaliwr,

HerSuper Fynychwr

Mae presenoldeb da yn yr ysgol yn hanfodol i bob disgybl gan ei fod yn cynyddu ei siawns o gyrraedd ei lawn botensial. Dyma'r rheswm ei fod yn flaenoriaeth allweddol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r rheswm pam rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Presenoldeb yn yr Ysgol newydd. Er mwyn ategu amcanion y strategaeth, mae Super Fynychwr Rhondda Cynon Taf wedi lansio her i annog disgyblion ysgolion cynradd i fynychu'r ysgol bob dydd os ydyn nhw'n ddigon iach. Bydd Super Fynychwr yn cydnabod presenoldeb da disgyblion ar ddiwedd pob tymor, a bydd disgyblion unigol yn cael eu gwobrwyo ar gyfer eu cyflawniadau trwy ddefnyddio data swyddogol sy'n cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

Bydd gwobrau yn cael eu rhoi ar gyfer y categorïau canlynol;

- presenoldeb o 97% neu'n uwch na hynny mewn tymor;
- y disgybl y mae ei bresenoldeb wedi gwella fwyaf (wedi'i bennu gan yr ysgol);
- yr unigolyn sydd wedi goresgyn y problemau mwyaf i fod yn bresennol yn yr ysgol (wedi'i ddewis gan yr ysgol).

Rydyn ni'n gwahodd disgyblion o bob ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf i gymryd rhan a manteisio ar y cyfle i gael clod yn rhan o Her Super Fynychwr.

Dyma'r ffyrdd y mae modd i'ch plentyn dderbyn her Super Fynychwr:

- Mynychu'r ysgol ar ei ben-blwydd a dathlu gyda'i ffrindiau ac athrawon;
- Sicrhewch eich bod chi'n gosod larwm fel bod eich plentyn yn yr ysgol ar gyfer y gloch gyntaf;
- Mynychu apwyntiadau gyda'r meddyg / deintydd sy ddim yn rhai brys tu allan i oriau ysgol;
- Treulio amser gyda'r teulu yn ystod y gwyliau yn hytrach na thymor yr ysgol.

Mae modd i'r syniadau yma wneud gwahaniaeth mawr i bresenoldeb eich plentyn a chael effaith gadarnhaol ar ei ddeilliannau addysgol.

Croesawn eich cymorth gyda'r her yma ac rydyn ni'n gobeithio y bydd y cymhelliad o'ch plentyn yn cyflawni'i botensial yn eich annog chi i adeiladu ar lefel flaenorol ei bresenoldeb.

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cynllun yma, cysylltwch â'ch ysgol leol neu e-bostio Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ar presenoldeballes@rctcbc.gov.uk. Am ragor o wybodaeth am bresenoldeb yn yr ysgol, ewch i www.rctcbc.gov.uk/PresenoldebynyrYsgol

Yn gywir,

<<Pennaeth Ysgol>>